Grŵp Llywio Partneriaeth Economaidd Gwynedd

Dyddiad:	4ydd o Ebrill 2008
Amser:	10:00 (paned ar gael o 09:45)
Lleoliad:	Canolfan Datblygu Rheolaeth, Prifysgol Bangor (Map lleoliad ynghlwm)

Mynychwyr:

Aelodau'r Grŵp Llywio neu eilyddion enwebedig

Sylwebyddion

Ysgrifenyddiaeth y Bartneriaeth

Gwesteion:

Robin Beckman	DCELLS Llywodraeth y Cynulliad

Ariennir a hwylusir Gweithredu dros Gymunedau Gwledig gan Lywodraeth Cynulliad Cymru
Rural Community Action is funded and facilitated by the Welsh Assembly Government

Grŵp Llywio Partneriaeth Economaidd Gwynedd – 4 o Ebrill 2008

RHAN UN: MATERION BUSNES

01. Ymddiheuriadau

02. Datganiadau o ddiddordeb personol

03. Cofnodion Grŵp Llywio 25 Ionawr 2008 (amgaeedig - *papur glas*):
    - Cywiro a chadarnhau
    - Unrhyw fater nad yw'n ymddangos ar y Rhaglen

04. Is-Grwpiau'r Bartneriaeth - adroddiad (amgaeedig - *papur melyn*):
    - Llwyddo'n Lleol
    - Cefnogi Busnes
    - Sgiliau
    - Datblygu Gwledig
    - Adfywio Cymunedol

05. Rhaglenni Ewropeaidd Cymru:
    - adroddiad gweithgaredd (amgaeedig - *papur oren*)

RHAN DAU: MATERION STRATEGOL - SGILIAU

Papur Cefndir (amgaeedig – papur pinc)

07. Cyflwyniad gan Robin Beckman, Llywodraeth Cynulliad Cymru – Cydestyn Cenedlaethol

08. Cyflwyniad gan Iwan Trefor Jones, Cyngor Gwynedd – Cydestyn Gogledd Orllewin Cymru

09. Rhannu i weithdai wedi'i hwyluso

10. Adrodd nôl

11. Unrhyw fater arall

12. Dyddiad a lleoliad cyfarfod nesaf y Grŵp Llywio

    Darperir cinio wedi'r cyfarfod a bydd cyfle i gael taith fer o gwmpas y Ganolfan

Cofnodion Grŵp Llywio 25 Ionawr 2008

Grŵp Llywio Partneriaeth Economaidd Gwynedd

Dyddiad:	25 Ionawr 2008
Amser:	10:00 - 13:00
Lleoliad:	Neuadd Craflwyn, Beddgelert

Presennol:

Cynrychiolwyr y Sector Breifat		
Dewi Lewis	*Cadeirydd*	Siop Dewi
Tim Knight		Academi Sgiliau Niwclear
Gwynedd Watkin		Undeb Amaethwyr Cymru
Evie Wyn Jones	(*Eilydd)*	Busnes Eryri Cyf.
John A Morris	(*Eilydd)*	J Morris
Cynrychiolwyr y Sector Wirfoddol		
Bethan Russell Owen		Mantell Gwynedd
Catrin Lloyd Perry		Coleg Harlech / WEA
Alex Badley		Gwynedd Gynaliadwy
Cynrychiolwyr y Sector Gymunedol		
Llŷr Huws Gruffydd		Menter a Busnes
Tad Deiniol		Yn Ein Blaenau
Dyfed Edwards		Antur Nantlle
J. Isgoed Williams		Traws-Newid
Godfrey Northam		Cyngor Cymuned Bethesda
Cynrychiolwyr y Sector Gyhoeddus		
Gwenan Jones		Prifysgol Bangor
John Idris Jones		Awdurdod Datgomisiynu Niwclear
Dorothy Hughes		Unllais Cymru
Fiona Williams		Gyrfa Cymru
Eiddwen Borland		Jobcentre Plus
June Jones		Cyngor Gwynedd
Janet Jones		Llywodraeth Cynulliad Cymru
Sylwebyddion		
Dim		
Swyddogion yr Ysgrifenyddiaeth (Cyngor Gwynedd)		
Sioned Williams		Pennaeth Gwasanaeth Economi ac Adfywio
Dylan Griffiths		Rheolwr Cynllunio Strategol ac Ariannu
Rhys Evans		Pen Swyddog Ewrop
Colin Morris		Pen Swyddog Cefnogi Busnes
Nia Swann		Swyddog Datblygu Llwyddo'n Lleol
Sian Lloyd Roberts		Rheolwr Sgiliau a Mentergarwch
Catrin Thomas		Rheolwr Adfywio Cymunedol
Ann Owen		Rheolwr Polisi a Pherfformiad
Gwesteion		
Gary Draisey		Ymgynghorydd Interfleet Technologies Ltd

MATERION BUSNES

01 Ymddiheuriadau

Nodwyd fod ymddiheuriadau wedi eu derbyn gan Peter Clarke (TUC Cymru), Ann Rubji (Llywodraeth Cynulliad Cymru), Trefor Jones (Llywodraeth Cynulliad Cymru), Sian Hope (Prifysgol Bangor), Robert O'Regan (Parker, O'Regan, Tann & Co), Eleri Evans (Ffederasiwn Ffermwyr Ifanc), Catrin Roberts (Llywodraeth y Cynulliad), Anne Lloyd Jones (Twristiaeth Canolbarth), Sian. M. Williams (Griffith Williams a'i Gwmni), Rhys Davies (Camre Cymru), Huw Watkins (BIC Innovation), Menna Jones (Antur Waunfawr), Keneuoe Morgan (Deudraeth Cyf), Emyr Williams (Parc Cenedlaethol Eryri), Dafydd Iwan (Cyngor Gwynedd), Ruth Bacigalupo (Llywodraeth y Cynulliad), Geraint Wyn Parry (Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru), Paul Freeman (Grwp Bridge Marine Science), David Joyner (Prifysgol Bangor), Alison Williams (Theatr y Ddraig) a Vivienne Pritchard (Cyngor Gwynedd)

02. Datganiadau o ddiddordeb personol

DIM

03. Cofnodion y cyfarfod 11 Hydref 2007

Trafodaeth:

DIM

Casgliadau:

i)**Cytunwyd** i gofnodion cyfarfod 23 Tachwedd 2007

Tasgau:

DIM

04. Is-grwpiau'r Bartneriaeth

Trafodaeth: Llwyddo'n Lleol

i) Cafwyd diweddariad gan Nia Swann ar fwletin Llwyddo'n Lleol oedd ynghlwm ym mhecyn yr aelodau. Cyfeiriodd yn arbennig at yr hyn sy'n cael ei gynnig fel newid i strwythur y grŵp. Daw'r newid yn sgil fod nifer yn ymddiheuro o'r cyfarfodydd a'i bod wedi troi i fod braidd yn unochrog. Cynigir cynnal llai o gyfarfodydd a chyfathrebu mwy drwy gyfrwng e-bost, byddai modd tynnu pawb at ei gilydd os bydd angen trafodaeth ar fater. Roedd yr aelodau yn gyfforddus efo'r hyn oedd yn cael ei gynnig.

ii) Trafodwyd y cais RCA yn ogystal, gofynnodd Nia i'r aelodau gymeradwyo'r cais fel gall barhau i'w ddatblygu, ni chafwyd unrhyw wrthwynebiad.

Trafodaeth: Cefnogi Busnes

iii) Adroddodd Colin Morris wrth y grŵp fod cyfarfod wedi ei gynnal ar y 26ain o Dachwedd, cyfeiriodd at y prif faterion sydd wedi eu nodi yn y bwletin ynghlwm. Trefniadau Wythnos Busnes - dau gwmni lleol wedi eu penodi i drefnu a chydlynu 5 prif ddigwyddiad yn ystod yr wythnos.

iv) Adroddodd hefyd ar y drafodaeth sydd wedi cymryd lle ar yr angen am ddadansoddiad pellach ar y data gan y Cynulliad a'r ffordd bydd yn adrodd yn ôl yn y dyfodol.

v) Tynnodd Colin sylw yn arbennig at y drafodaeth am gynlluniau Twristiaeth oedd yn rhoi trosolwg o'r gwaith a wnaed er mwyn datblygu a hyrwyddo twristiaeth yn yr ardal. Cafwyd cadarnhad hefyd fod Partneriaeth Twristiaeth Gogledd Cymru yn paratoi strategaeth ar gyfer yr ardal.

Trafodaeth: Grŵp Sgiliau

vi) Cafwyd adroddiad gan Sian Lloyd Roberts, nododd nad oedd cyfarfod wedi ei gynnal ers cyfarfod olaf grŵp llywio PEG.

vii) Tynnodd sylw'r aelodau at dair dogfen bwysig sydd o dan ymgynghoriad ar hyn o bryd;

viii) *Adroddiad Webb* - Adroddiad gan Lywodraeth y Cynulliad ar addysg, prif argymhellion yn cynnwys sefydlu system consortia 14-19, ail ffocysu ôl 19 ar gyflogwyr a'r angen i edrych ar y system addysg uwch. Mae copi o'r adroddiad ar gael trwy law'r Ysgrifenyddiaeth.

ix) *Strategaeth Sgiliau a Chyflogaeth* - Rhan o ymateb y Cynulliad at adroddiad Webb, gweledigaeth ar gyfer sgiliau a chyflogaeth yng Nghymru sy'n arwain at gryfhau llais cyflogwyr. Mae rôl i'r cynghorau sgiliau, ond bod angen sefydlu cyswllt cryf. Mae cronfa blaenoriaethu i'w sefydlu bydd yn darparu hyfforddiant yn y gweithle. Nodwyd fod yr ymgynghoriad yn parhau hyd at Ebrill 2008. Gweler y linc ar gyfer yr adroddiad;

http://new.wales.gov.uk/docrepos/40382/4038232/403829/Consultations/1901302/skills-for-wales-cons-e.pdf?lang=en

x) *Mesur Sgiliau a Dysgu 2008* - Gosod opsiynau i bobl ifanc yng nghyfnod allweddol - pwysau ychwanegol ar ysgolion, yn sicr yn gynnig radical iawn. Gweler y linc ar gyfer y ddogfen;

http://new.wales.gov.uk/docrepos/40382/4038232/403829/Consultations/1901302/Proposals_for_a_Learning_an1.pdf?lang=en

xi) Bydd y grŵp yn cyfarfod ddiwedd Chwefror i ymateb i'r uchod. Nodwyd hefyd y gwaith sydd yn digwydd ar Strategaeth Sgiliau Gwynedd a Môn - gweledigaeth ac amcanion yr ardal, sectorau twf a'r strwythur rheolaethol, mae'r adroddiad yn cael ei baratoi gan gwmni ymgynghorwyr Hoshin.

xii) Nododd Sian fod Ffurflen Gwybodaeth Prosiect (PIF) i'w osod ar wefan WEFO yn cael ei baratoi ar gyfer cynllun Canolfan Sgiliau Galwedigaethol Meirion-Dwyfor ar hyn o bryd.

xiii) Diolchwyd am y diweddariad a nodwyd bydd y maes sgiliau yn cael ei roi mor fuan â phosib ar raglen waith y Grŵp Llywio.

Trafodaeth: Cynllun Datblygu Gwledig

xiv) Rhoddodd Dylan Rhys Griffiths adroddiad byr yn dilyn cyflwyno'r cais ar y 30ain o Dachwedd, 2007. Does dim adborth wedi dod i law hyd yn hyn. Nododd nad oes cyfarfod o'r Is-grŵp wedi ei gynnal ers cyflwyno'r cais, mae cyfarfod wedi ei raglennu ar gyfer mis Chwefror.

Trafodaeth : Adfywio Cymunedol

xv) Cafwyd diweddariad o'r gwaith o fewn y Sir gan Catrin Thomas, nododd nad oes yna grŵp ffurfiol yn bodoli, ond ei bod yn bwysig fod yr aelodau yn cael diweddariad ar yr hyn sydd yn weithredol yng Ngwynedd.

Casgliadau:

xvi) **Derbyn** yr adroddiadau

Tasgau:

a) **Cylchredeg adroddiad RCA Llwyddo'n Lleol**

Ysgrifenyddiaeth cgaph

b) **Rhaglennu fod y maes Sgiliau yn cael ei drafod yn y grŵp llywio mor fuan â phosib**

Ysgrifenyddiaeth Cyfarfod Nesaf

c) **Cylchredeg linciau i'r ymgynghoriadau yn adroddiad grŵp sgiliau**

Ysgrifenyddiaeth cgaph

05. Adolygiad Blynyddol o Aelodaeth Grŵp Llywio Partneriaeth Economaidd Gwynedd

Trafodaeth:

i) Nododd Dylan Rhys Griffiths fod bwriad i adolygu a chadarnhau aelodaeth o'r grŵp llywio i aelodau llawn ac i eilyddion. Mae'r aelodau a'r eilyddion wedi eu hethol am gyfnod o dair blynedd a byddai'n ddefnyddiol nawr i gadarnhau sefyllfa trwy gyfrwng ffurflen gofnodi fer.

Casgliadau:

ii) **Cytunwyd** fod adolygiad yn cael ei wneud trwy gyfrwng ffurflen fonitro

Tasgau:

ch) **Ffurflen cadarnhad o aelodaeth i'w chylchredeg i aelodau llawn ac i eilyddion**

Ysgrifenyddiaeth cgaph

06. Rhaglen Waith PEG 2008

Trafodaeth:

i) Trafododd Dylan Rhys Griffiths fod bwriad i ddatblygu rhaglen waith ar gyfer y flwyddyn, byddai'r themâu yn strategol eu naws. Nododd byddai materion busnes pob cyfarfod yn parhau. Dangosodd sleid o raglen ddrafft fel enghraifft

ii) Nododd Sioned Williams fod angen edrych yn fanwl ar rôl a swyddogaeth y bartneriaeth ar sail tynged y Cynllun Datblygu Gwledig. Os bydd y cais yn llwyddiant bydd cyfrifoldeb ar PEG i rannu'r cyllid, os na fydd yn llwyddiant bydd angen ail ystyried dyfodol y bartneriaeth.

Casgliadau:

iii) **Cytunwyd** gyda'r syniad a chafwyd cefnogaeth i lunio rhaglen

Tasgau:

d) **Llunio rhaglen waith y grŵp llywio ar gyfer 2008**

Ysgrifenyddiaeth cgaph

MATERION STRATEGOL

07. Diweddariad ar bolisi Economaidd-Cymdeithasol yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear

Trafodaeth:

i) Cafwyd cyflwyniad gan John Idris Jones, Pennaeth Datblygiad Economaidd –Cymdeithasol Gogledd Cymru, Magnox North. Esboniodd am ei rôl newydd gan gyfeirio yn arbennig at faterion datblygiad cymdeithasol.

ii) Nododd fod datblygiadau yn digwydd nawr yn nhermau polisi, mae cynllun busnes drafft yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear yn disgrifio sut y bydd yn ail gyfeirio eu hunain ar ôl y blynyddoedd cyntaf o weithredu, mae'r linc isod yn cyfeirio at y ddogfen berthnasol;

http://www.nda.gov.uk/documents/loader.cfm?url=/commonspot/security/getfile.cfm&pageid=17338

iii) Mae'r awdurdod yn edrych ar effeithiau datgomisiynu ar ardal, nodwyd fod hyn yn eilradd, gyda lleihau perygl yn cael blaenoriaeth.

iv) Nododd John fod yna £10m dros y tair blynedd nesaf i gefnogi'r gwaith yn y maes a hynny dros 20 o safleoedd, gyda'r rhelyw o'r rhain yng Ngorllewin Cumbria. Blaenoriaethau'r cyllid fydd cyflogaeth, addysg a sgiliau ac adfywiad economaidd. Bydd y broses ymgeisio yn cynnwys ffurflen gais a datblygu cynllun busnes manwl, bydd angen dangos fod cyllid yn dod o lefydd eraill. Nododd nad ydi hi'n bictiwr arbennig o lewyrchus a bydd rhaid gweithio'n galed i sicrhau'r budd mwyaf.

Casgliadau:

v) **Derbyniwyd** y cyflwyniad

Tasgau:

dd) **Cylchredeg linc i'r adroddiad i'r aelodau**

Ysgrifenyddiaeth cgaph

08. Materion Gofodol

Trafodaeth:

i) Rhoddodd Dylan Rhys Griffiths adroddiad llafar ar faterion yn ymwneud a Chynllun Gofodol Cymru. Cyfeiriodd yn arbennig at yr Ymgynghoriad cenedlaethol sydd i gychwyn ar y 28ain o Ionawr hyd at yr 8fed o Ebrill (cyfnod o 12 wythnos). Bydd y Cynulliad Cenedlaethol wedyn yn cael eu gwahodd i fabwysiadu'r cynllun yn ffurfiol. Nododd fod mewnbwn eisoes wedi ei dderbyn yn ystod y cyfnod ysgrifennu. Cyfeiriodd at y gweithdai sydd wedi eu trefnu, bydd gwahoddiadau yn cael eu cylchredeg maes o law trwy'r Ysgrifenyddiaeth.

ii) Cyfeiriodd at waith adnabod aneddiadau allweddol ar gyfer ardal Canol Cymru, fod yr astudiaeth wedi ei chwblhau ond nad oedd cytundeb i'w fabwysiadu yn ffurfiol., Roedd gobaith y byddai'r gwaith wedi gosod cyfeiriad i Feirionydd, mae'n debygol nad oes dim, bydd darn o waith penodol ar gyfer yr ardal yn cael ei gynhyrchu – mae'r briff yn cael ei baratoi ar hyn o bryd.

iii) Dosbarthwyd crynodeb ar waith y Gogledd Orllewin fel papur ychwanegol. Mae'r broses ail ddrafftio wedi digwydd, sy'n cael ei ystyried fel sail ar gyfer ymgynghoriad pellach. Cyfeiriodd yn arbennig at ddau ddarn ychwanegol o waith, yn cynnwys astudiaeth i fodel o drosglwyddo twf i ardaloedd gwledig ac astudiaeth ddemograffig.

iv) Cafwyd trafodaeth, ble tynnwyd sylw arbennig at sicrhau mewnbwn i'r broses, yn enwedig gan y sector wirfoddol.

09. <u>Rhaglenni Ewropeaidd Cymru</u>

Trafodaeth:

i) Rhoddodd Sioned Williams grynodeb byr gan gyfeirio yn arbennig fod yna waith ôl-ofal Amcan 1 sy'n parhau ar hyn o bryd fydd hyn yn dod i ben ddiwedd Mehefin, gyda throsglwyddiad i waith Cymorth Technegol y Rhaglen Cydgyfeiriant yn cychwyn ddechrau Gorffennaf.

ii) Tynnodd sylw'r aelodau at y ffaith nad oes Swyddog Datblygu wedi ei benodi eto i weithio ar y Rhaglen Gydweithio Diriogaethol Cymru / Iwerddon. Nododd fod y diffyg yma wedi llesteirio'r broses o ddatblygu ceisiadau yma yng Ngwynedd ond fod yr Ysgrifenyddiaeth wedi darparu cymorth cychwynnol i ymgeiswyr.

iii) Cyfeiriwyd at ddatblygiad y Timau Ewropeaidd Gofodol (SET's), au bod erbyn hyn gam yn nes at eu cadarnhau. Nododd mai ardal gofodol y De Orllewin sy'n arwain ar y cais yn genedlaethol a bydd cynrychiolaeth o dîm Ewrop Gwynedd yn aelodau o'r SET's.

iv) Cyfeiriwyd fod pob un o'r fframweithiau strategol bellach wedi ei chytuno, gan eithrio Blaenoriaeth 5. Nododd Sioned fod Atodiad 2 o bapurau'r aelodau yn cyfeirio yn arbennig at benderfyniad i Bwyllgor Monitro Rhaglen (PMC) i dargedu 80% o gyllid o fewn y flaenoriaeth at 44 o aneddiadau.

v) Nododd Sioned hefyd fod y broses ymgeisio am gyllid yn dod yn gliriach, ac mai cyflwyno Taflen Gwybodaeth Prosiect (PIF's) ydi'r cam cyntaf fel ffordd o dynnu sylw at syniad, ond ategodd nad ydi hyn mewn gwirionedd yn rhan o'r broses ymgeisio ffurfiol. Mae'r broses yn cychwyn gyda Ffurflen Datganiad o Ddiddordeb, ble bydd Swyddog Datblygu Prosiect yn cael ei bennu.

vi) Nododd fod nifer o gynlluniau cenedlaethol yn cael eu datblygu eisoes, cyfeiriodd yn arbennig at gynlluniau trwy Fleanoriaeth 4 Them 3, sef Atodiad 1 o'r papurau. Mae'r wybodaeth yn parhau i fod yn aneglur, ond mae'n bosib nawr i weld tueddiadau.

vii) Nododd Sioned fod seminar i edrych ar y cynlluniau a blaenoriaethau wedi ei drefnu ar y 26ain o Chwefror gan Bwyllgor Craffu Datblygu Cyngor Gwynedd, dywedodd fod yn bwysig cael mewnbwn i'r seminar.

Nodwyd bydd aelodau PEG yn derbyn gwahoddiad i'r seminar, awgrymwyd dylai Cydlynwyr Sector ac un cynrychiolydd arall o bob sector fynychu sesiwn briffio i drafod y blaenoriaethau i'w drefnu ynghynt. Cafwyd trafodaeth a chyfeiriwyd at y ffaith y byddai modd cysylltu hyn i mewn i lunio Cynllun Strategol, holwyd hefyd beth oedd y diweddaraf gyda chynllun 'Goriad Gwyrdd'

Casgliadau:

iii) **Derbyniwyd** y cyflwyniad a diolchwyd am y diweddariad

Tasgau:

e) **Gwahodd aelodau ac eilyddion PEG i'r seminar ar y 26ain o Chwefror.**

Ysgrifenyddiaeth cgaph

f) **Trefnu sesiwn brifio i Gydlynwyr Sector a chynrychiolydd ychwanegol**

Ysgrifenyddiaeth cgaph

ff) **Cysylltu â'r Gyfadran Amgylchedd am ddiweddariad o'r cynllun 'Goriad Gwyrdd'**

Ysgrifenyddiaeth cgaph

10 <u>Amlinelliad o gynllun i ail ddatblygu rheilffordd Blaenau Ffestiniog a Trawsfynydd</u>

i) Cafwyd cyflwyniad gan Gary Draisey, Ymgynghorydd gyda chwmni Interfleet Ltd yn amlinellu'r gwaith cefndirol sydd eisoes wedi ei gyflawni gyda Traws-Newid a'r hyn sydd yn cael ei argymell fel datblygiadau i'r dyfodol.

ii) Cyfeiriodd yn arbennig at;

- Amlinelliad o fwriad i fynd ati i ddatblygu astudiaeth ddichonoldeb manwl.
- Awydd Traws-Newid i ddatblygu cynllun ar y rheilffordd rhwng Blaenau Ffestiniog a Trawsfynydd.
- Cynllun gyda'r potensial i gynnwys Cyrsiau Profiad Gyrru, Teithiau Treftadaeth a datblygu Amgueddfa fechan mewn amser.
- Costau sefydlu cymharol isel, fyddai o bosib yn gwneud y cynllun yn fwy cynaliadwy.
- Byddai'r cynllun yn gwneud defnydd da o adnodd parod, sydd yn cael eu defnyddio ar hyn o bryd.
- Potensial i greu adnodd twristiaeth a chymunedol gwerth chweil gyda chefnogaeth y gymuned.

Casgliadau:

iii) **Diolchwyd** am y cyflwyniad a chafwyd cyfle i holi Gary Draisey yn anffurfiol

Tasgau:

g) **Cylchredeg copi o'r cyflwyniad i'r aelodau a'r eilyddion**

Ysgrifenyddiaeth cgaph

C R Y N O D E B T A S G A U

a) **Cylchredeg adroddiad RCA Llwyddo'n Lleol**

Ysgrifenyddiaeth cgaph

b) **Rhaglennu fod y maes Sgiliau yn cael ei drafod yn y grŵp llywio mor fuan â phosib**

Ysgrifenyddiaeth Cyfarfod Nesaf

c) **Cylchredeg linciau i'r ymgynghoriadau yn adroddiad grŵp sgiliau**

Ysgrifenyddiaeth cgaph

ch) **Ffurflen cadarnhad o aelodaeth i'w chylchredeg i aelodau llawn ac i eilyddion**

Ysgrifenyddiaeth cgaph

d) **Llunio rhaglen waith y grŵp llywio ar gyfer 2008**

Ysgrifenyddiaeth cgaph

dd) **Cylchredeg linc i'r adroddiad i'r aelodau**

Ysgrifenyddiaeth cgaph

e) **Gwahodd aelodau ac eilyddion PEG i'r seminar ar y 26ain o Chwefror.**

Ysgrifenyddiaeth cgaph

f) **Trefnu sesiwn brifio i Gydlynwyr Sector a chynrychiolydd ychwanegol**

Ysgrifenyddiaeth cgaph

ff) **Cysylltu â'r Gyfadran Amgylchedd am ddiweddariad o'r cynllun 'Goriad Gwyrdd'**

Ysgrifenyddiaeth cgaph

g) **Cylchredeg copi o'r cyflwyniad i'r aelodau a'r eilyddion**

Ysgrifenyddiaeth cgaph

Is-Grwpiau'r Bartneriaeth

Is-Grwpiau'r Bartneriaeth

CYFARFOD:	Grŵp Llywio Partneriaeth Economaidd Gwynedd
DYDDIAD:	4ydd o Ebrill 2008
PWRPAS:	Diweddaru Aelodau ar weithgaredd Is-Grwpiau'r Bartneriaeth.
ARGYMHELLIAD:	Nodi cynnwys yr adroddiad
AWDUR:	Sioned E. Williams Pennaeth Gwasanaeth Economi ac Adfywio

1. Cyflwyniad

1.1 Mae pum is-grŵp wedi eu pennu gan aelodau'r Grŵp Llywio i'w cynorthwyo yn eu gwaith. Pwrpas yr adroddiad hwn yw diweddaru'r Aelodau ar weithgaredd yr is-grwpiau yn y cyfnod ers cyfarfod olaf y Grŵp Llywio.

2. Is-grŵp gweithredu Llwyddo'n Lleol

2.1 Cyfeiria'r adroddiad sydd i'w gael yn Atodiad 1 yn arbennig at gyflwyno cais am nawdd o Gronfa Gweithredu dros Gymunedau Gwledig, Gwobr Rhagoriaeth Cymru, Cais Cydgyfeiriant yn ogystal ag allbynnau 2007/08 yn erbyn targedau.

3. Is-grŵp Datblygu Gwledig

3.1 Mae'r Is-grŵp Datblygu Gwledig yn parhau i arwain ar ddatblygiad cynigion y Bartneriaeth ar gyfer y Cynllun Datblygu Gwledig. O ganlyniad i oedi yn amserlen gweithredu'r Cynllun Datblygu Gwledig (gweler Eitem 5 am ddiweddariad ar weithredu'r Cynllun), nid yw'r Is-grŵp wedi cwrdd yn y cyfnod ers cyfarfod olaf Grŵp Llywio'r Bartneriaeth.

4. Is-grŵp Cefnogi Busnes

4.1 Ni fu cyfarfod o'r Is-grŵp Datblygu Busnes fodd bynnag gwahoddwyd yr aelodau i gyfarfod y grŵp Sgiliau a Mentergarwch ar yr 28ain o Chwefror. Rhagwelir cynnal y cyfarfod nesaf ar yr 2il o Fai.

5. Is-grŵp Sgiliau

5.1 Cyfarfu'r Is-grŵp Sgiliau ar y 28 o Chwefror, gweler Atodiad 2 am adroddiad, ble cafwyd trafodaeth ar ymgynghoriadau cyfredol o fewn y maes.

6. Gweithgareddau Adfywio Cymunedol

6.1 Ni cheir adroddiad ar weithgareddau y tro hwn.

7. Argymhelliad

7.1 Aelodau'r Grŵp Llywio i dderbyn cynnwys yr adroddiad.

Llwyddo'n Lleol

BWLETIN (Ebrill 2008)

Enw'r Bartneriaeth: **Partneriaeth Economaidd Gwynedd (Is-Grwp Llwyddo'n Lleol)**

Dyddiad y cyfarfod: **d/p**

Prif bwyntiau gweithredu o'r cyfarfod:

Materion i sylw'r Bwrdd Llywio:

1 Cyflwyno Cais am Nawdd Cronfa Gweithredu Dros Gymunedau Gwledig Llywodraeth Cynulliad Cymru – 2008/09

1.1 Mae cais am nawdd i gronfa Gweithredu dros Gymunedau Gwledig Llywodraeth Cynulliad Cymru, mewn ffurf Cynllun Gweithredu wedi ei gyflwyno ar gyfer rhaglen Llwyddo'n Lleol yn 2008/09.

1.2 Bydd y cais yn cynnwys yr un pecyn o weithgareddau a 2007/08, gan edrych i orffen cyfnod treial y rhaglen yn 2008/09 a chreu sail gadarn i ddatblygu'r gwaith o dan y Cynllun Datblygu Gwledig a'r Rhaglen Cydgyfeirio.

1.3 Mae'r cais yn parhau hefo'r 3 prif weithgaredd sef:

- Cynllun Entrepreneuriaeth Ifanc (modiwlau mewn ysgolion)
- Sesiynau Sbarduno Syniadau am Fentrau
- Bwrsariaeth Llwyddo'n Lleol

Oherwydd cyllid llai, dydy Sioeau Teithiol Llwyddo'n Lleol ddim yn rhan o'r Cynllun Gweithredu, ond byddem yn edrych am nawdd ychwanegol i'r elfen yma o'r gwaith.

1.4 Mae costau'r Cynllun yn 2008/09 fel a ganlyn:

- Swyddog Datblygu £36,000
- Sesiynau Sbarduno Syniadau £33500
- Bwrsariaeth £50500
- Cynllun Entrepreneuriaeth Ifanc £75730
- Marchnata / Costau Swyddfa / Costau Cyfarfodydd £4270

1.5 Mae arian cyfatebol o £10,000 wedi'i dderbyn gan Rhwydwaith 14-19 Gwynedd. Mae Cais am £40,000 wedi'i gyflwyno i'r Asiantaeth Dadgomisynu Niwclear, ac wedi'i danysgrifio gan Cyngor Gwynedd er mwyn cyflwyno'r cais o fewn amserlen Llywodraeth Cynulliad Cymru.

2 Gwobr Rhagoriaeth Cymru

2.1 Mae Rhaglen Llwyddo'n Lleol wedi ennill Tystysgrif Rhagoriaeth Cymru mewn noson gwobrwyo yng Nghaerdydd Mis Chwefror.

3. Cais Llwyddo'n Lleol – Cydgyfeirio

3.1 Mae'r broses o gyflwyno cais i ehangu gwaith Llwyddo'n Lleol ar draws gogledd orllewin Cymru bellach wedi'i gychwyn trwy gyflwyno Datganiad o Ddiddordeb i WEFO, ar y cyd hefo Cyngor Sir Fôn, Cyngor Conwy a Chyngor Sir Ddinbych.

4. Allbynnau 2007/08 yn Erbyn Targedau

4.1 Mae allbynnau'r rhaglen ar gyfer chwarter 2007/08 bellach wedi'u casglu, i'w hadrodd i Lywodraeth Cynulliad Cymru, ac yn ymddangos fel a ganlyn:

	Targed	**Cyfanswm 07/08**
Nifer y cyrsiau hyfforddi newydd a gyflwynir	4	4
Nifer yr unigolion a gynorthwyir	30	36
Nifer y gweithgareddau marchnata a hyrwyddo a gynhelir	25	28
Nifer y digwyddiadau codi ymwybyddiaeth a gynhelir	5	5
Nifer y deunyddiau deongliadol a gynhyrchir	2	2
Nifer yr unigolion sy'n cymryd rhan	650	693
Nifer y cymunedau sy'n cymryd rhan	3	2
Nifer yr unigolion newydd sy'n cael eu hyfforddi, ac sy'n ennill sgiliau newydd neu'n ail-hyfforddi	65	76
Nifer y busnesau a grëwyd	10	37
Nifer y grwpiau cymunedol a gynorthwyir	8	8
Nifer y swyddi a grëwyd	3	6

Mae pob target wedi'i gyrraedd heblaw am y nifer o gymunedau sydd wedi cymryd rhan. Roedd hyn oherwydd capasiti, gyda llawer iawn o waith yn cael ei gynnal gydag ysgolion eleni. Bwriedir gweithio i sicrhau gwell cydbwysedd rhwng ysgolion a'r gymuned ehangach yn 2008/09.

Unrhyw faterion penodol i bartneriaethau eraill (nodwch pa un):

dim

Enw cydlynydd: Nia Swann
Rhif Ffôn: 01286 679774
Ebost: Nia Swann@gwynedd.gov.uk

Person sy'n gyfrifol am y cofnodion:

Nia Swann

Is-Grŵp Sgiliau

BWLETIN (Ebrill 2008)

Enw'r Bartneriaeth: **Partneriaeth Economaidd Gwynedd (Grŵp Sgiliau Gwynedd & Môn)**

Dyddiad y cyfarfod: **d/p**

Prif bwyntiau gweithredu o'r cyfarfod:

Ymgynghoriadau:
Adroddiad Webb, Strategaeth Sgiliau Sy'n Gweithio i Gymru a Mesur 14-19 2008
Strategaeth Sgiliau Gwynedd a Môn

Materion i sylw'r Bwrdd Llywio:

1. Aethpwyd trwy ymgynghoriadau Webb, Strategaeth Sgiliau Sy'n Gweithio i Gymru a Mesur 14-19 2008 gan rhoi sylwadau ar y tair ddogfen. Gellir nodi'r prif bwynt:
   - Angen sicrhau mewnbwn barn cyflogwyr a busnesau i'r dogfennau ymgynghorol

2. Strategaeth Sgiliau Gwynedd a Môn: Nodwyd pwrpas comisiynu'r strategaeth i nodi gweledigaeth ag amcanion ar gyfer datblygu Sgiliau ar gyfer Gwynedd a Môn.

3. Model Glas-Brint Manwerthu Doc Fictoria: Cyflwynwyd model sydd wedi'i greu yn ddiweddar ar gyfer datblygu sgiliau manwerthu ar gyfer yr economaidd anweithredol.

Unrhyw faterion penodol i bartneriaethau eraill (nodwch pa un):

dim

Enw cydlynydd: Sian Lloyd Roberts
Rhif Ffôn: 01286 679729
Ebost: sianlloydroberts@gwynedd.gov.uk

Person sy'n gyfrifol am y cofnodion:

Sian Lloyd Roberts

Rhaglenni Ewropeaidd Cymru: Adroddiad Gweithgaredd

Diweddariad Rhaglenni Ewropeaidd

CYFARFOD:	Grŵp Llywio Partneriaeth Economaidd Gwynedd
DYDDIAD:	4ydd o Ebrill, 2008
PWRPAS:	Diweddaru Aelodau'r Bartneriaeth ar weithredu Rhaglenni Ewropeaidd 2000 - 2006 ac ar ddatblygu Rhaglenni Ewropeaidd 2007 - 2013
ARGYMHELLIAD:	Nodi cynnwys yr adroddiad
AWDUR:	Sioned E. Williams Pennaeth Gwasanaeth Economi ac Adfywio

1. Cyflwyniad

1.1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw diweddaru Aelodau'r Bartneriaeth yn gryno ar weithredu Rhaglenni Ewropeaidd 2000 - 2006 ac ar ddatblygu Rhaglenni Ewropeaidd 2007 - 2013, yn benodol:

- Rhaglen Amcan 1 Gorllewin Cymru a'r Cymoedd 2000 - 2006
- Rhaglen Cydweithio Tiriogaethol Cymru - Iwerddon 2007 - 2013
- Rhaglen Cydgyfeirio Gorllewin Cymru a'r Cymoedd 2007 - 2013
- Cynllun Datblygu Gwledig Cymru 2007 – 2013

2. Rhaglen Amcan 1

2.1 Arian Ychwanegol
Daeth i sylw'r Ysgrifenyddiaeth yn ddiweddar fod y rhaglen wedi derbyn arian ychwanegol yn sgìl amrywiad yn y gyfradd gyfnewid rhwng y Bunt a'r Ewro yn ogystal â newidiadau yn yr ymrwymiadau gwario. Mae'r arian ychwanegol ar gael dros bob mesur gan eithrio FIFG. Bydd WEFO yn ystyried ceisiadau am gyllid gan brosiectau sydd yn bodoli eisoes yn unig a hynny achos wrth achos. Mae'r Ysgrifenyddiaeth wedi cysylltu â nifer o brosiectau i'w hysbysu o'r cyfle yma eisoes, gellir adrodd fod cryn ddiddordeb. Gellir cysylltu yn uniongyrchol a'r Ysgrifenyddiaeth ar ragor o wybodaeth a chyngor.

2.2 Ôl-ofal:
Mae rôl a chyfrifoldebau'r Ysgrifenyddiaeth y Bartneriaeth yn darparu cyngor a chymorth i reolwyr prosiectau Amcan 1 yng Ngwynedd yn parhau. Mae'r Ysgrifenyddiaeth yn darparu cymorth i reolwyr cynlluniau i baratoi ar gyfer ymweliadau 'Erthygl 4' gan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO). Cynhaliwyd 55 ymweliad 'Erthygl 4' i brosiectau lleol yng Ngwynedd hyd yn hyn.

2.3 Fel rhan o'r gwasanaeth ôl-ofal parhaus, cysylltodd yr Ysgrifenyddiaeth gyda 47 rheolwr prosiect yn ddiweddar yn cynnig cyngor a chefnogaeth gydag unrhyw faterion a allai achosi pryder. Mae 20 cyfarfod wedi eu cynnal hyd yn hyn ac mae 11 o gyfarfodydd eraill wedi eu trefnu dros yr wythnosau nesaf. Fe gyflwynir adroddiad ar y canlyniadau i'r bartneriaeth ar ôl i'r gwaith gael ei gwblhau.

2.4 Cyhoeddusrwydd:
Mae'r Bartneriaeth yn parhau i weithio'n ymarferol i sicrhau cyhoeddusrwydd cadarnhaol yn lleol ar gyfer y rhaglen. Cyhoeddwyd erthygl a hysbyseb ar ran y Bartneriaeth Economaidd gan yr Ysgrifenyddiaeth ar y 26ain o Fawrth, ble cyfeiriwyd at lwyddiannau'r rhaglen Amcan 1 yng Ngwynedd.

3. Rhaglen Cydweithio Tiriogaethol Cymru / Iwerddon

3.1 Lansiwyd Rhaglen Cymru Iwerddon 2007 - 2013 yn swyddogol yn Llandudno ar 7fed o Ragfyr 2007. Caeodd yr alwad gyntaf am geisiadau ar y 18fed o Ionawr. Deallir bod 52 o ddatganiadau o ddiddordeb wedi eu cyflwyno yn ystod yr alwad gyntaf gyda 13 o'r rhain o'r Gogledd. Rhagwelir bydd galwad am geisiadau ddwywaith y flwyddyn, gyda'r nesaf wedi ei raglennu ar gyfer mis Gorffennaf.

3.2 Tynnir sylw'r aelodau at y ffaith fod Swyddog Datblygu ar gyfer y rhaglen bellach wedi ei benodi gan WEFO i'r Gogledd Orllewin, enw'r swyddog newydd ydi Roger Seddon, bydd yn gweithio o'r swyddfa ym Mae Colwyn. Anogir unrhyw un sydd â diddordeb mewn ymgeisio o'r Gogledd i gysylltu â'r Swyddog cyn gynted a phosib yn y cyfnod cynllunio.

3.3 Mae gwybodaeth bellach ar y rhaglen ar gael trwy wefan **www.irelandwales.ie** sy'n darparu gwybodaeth gyswllt ar gyfer ymgeiswyr sy'n datblygu syniadau ynghyd a'r dogfennau perthnasol. Atgoffir yr aelodau bod cynllun WIN 2 (Rhwydwaith Cymru Iwerddon) nawr ar gael i helpu ffurfio partneriaethau a all arwain at gyflwyno ceisiadau ar gyfer prosiectau. Mae'r cynllun yn darparu cymorth ariannol i fudiadau cymwys er mwyn talu am gostau teithio a chynhaliaeth. Mae ffurflen gais ac arweiniad ar gael ar y wefan yn ogystal.

4. Rhaglen Cydgyfeirio

4.1 Tynnir sylw'r aelodau at y ffaith fod y prosiectau cyntaf i'w ariannu trwy'r rhaglen wedi ei lansio ar y 25ain o Chwefror a'r 3ydd o Fawrth. Mae prosiect ERDF 'Trosglwyddo Gwybodaeth a Thechnoleg' yn gweithio i adeiladu ar brosiect 'Cronfa Ymelwad Gwybodaeth' (Knowledge Exploitation Fund) oedd yn cael ei gyllido trwy Amcan 1, mae'r prosiect yma werth £50m. Mae prosiect ESF 'Skillbuild' yn gweithio i gael 20,000 o bobl ddi-waith yn ôl i gyflogaeth, mae'r prosiect yma werth £60m. Bu cryn bryder fod y cynlluniau yma wedi ei datblygu heb ymgynghoriadau trylwyr ymlaen llaw, mae manylion ar gynnwys y ddau brosiect a sut byddent yn gweithredu yn parhau i fod yn annelwig ar hyn o bryd.

4.2 Timau Ewropeaidd Gofodol:
Mae trafodaethau'n parhau i sicrhau cyllid Cymorth Technegol gan y Rhaglen i gefnogi gwaith y Timau Ewropeaidd Gofodol (SETS) a fydd yn darparu gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth i ymgeiswyr prosiect yn ystod oes y rhaglen. Deallir fod y cais wedi ei gyflwyno i WEFO, ble disgwylir penderfyniad erbyn canol Ebrill. Cyfarfu'r swyddogion o ledled y Gogledd Orllewin sy'n debygol o fod ynghlwm a'r SET's yn cyfarfod ar y 22ain o Ionawr a'r 13eg o Fawrth.

4.3 Fframweithiau Strategol:
Mae holl Fframweithiau Strategol ERDF bellach gyda statws 'wedi cytuno' arnynt ar wefan WEFO, yn ogystal â holl Fframweithiau Strategol ESF sydd hefyd gyda'r statws 'wedi cytuno'.

4.4 Ffurflenni Gwybodaeth Prosiectau:
Mae 679 o Ffurflenni Gwybodaeth Prosiectau gan amrywiaeth o asiantaethau a mudiadau wedi eu cofnodi ar wefan WEFO hyd yma. Deallir fod yna 160 o geisiadau am ffurflen datganiad o ddiddordeb wedi ei chyflwyno i WEFO, o'r rhain mae 50 wedi cael eu cyflwyno am benderfyniad. Ymddengys fod 28% o'r rhain gan y Cynulliad, 30% gan Awdurdodau Lleol, 18% o'r sector breifat a 24% o'r 3ydd sector sy'n ymddangos yn drawstoriad eithaf cytbwys.

4.5 Mynegwyd pryderon gan y Bartneriaeth yn y gorffennol ynghylch â'r diffyg gwybodaeth gan Lywodraeth Cynulliad Cymru (LlCC) am brosiectau sy'n cael eu datblygu. Bellach mae nifer fawr o Ffurflenni Gwybodaeth Prosiectau gan LlCC yn ymddangos ar y wefan a gwybodaeth yn dod i law drwy ffynonellau eraill (wele isod), mae'n deg nodi ei fod yn parhau i fod yn anodd cael darlun cyflawn o'u bwriadau.

4.6 Cynlluniau Cenedlaethol:
Cynhaliwyd gweithdai gan Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, LlCC (DCELLS) ar eu cynlluniau ESF arfaethedig yng Ngwesty'r Metropole, Llandrindod ar y 29ain a'r 30ain o Ionawr. Cafwyd cynrychiolaeth o'r Ysgrifenyddiaeth yn y gweithdai, ble cyfeiriwyd at syniadau prosiect;

- Skillbuild (wedi ei dderbyn)
- Cynllun Prentisiaeth – MA/FMA's
- Cynllun Prentisiaeth lefel uwch – MSD
- ReAct
- Genesis Cymru

4.7 Bellach mae gan DCELLS 21 Ffurflen Gofnodi Prosiect ar wefan WEFO, 11 Datganiad o Ddiddordeb gyda 6 o'r rhain wedi ei gyflwyno fel ceisiadau llawn.

4.8 Mae cynlluniau sy'n cael eu datblygu trwy'r Adran Economi a Thrafnidiaeth (DE&T) hefyd i'w gweld ar y wefan erbyn hyn, mae'r rhain yn cynnwys 28 Ffurflen Gwybodaeth Prosiect gyda 14 o'r rhain yn thematig o fewn y meysydd canlynol;

- Arloesedd
- TGCH
- Menter
- Cyllid Busnes
- Newid Hinsawdd
- Datblygu Economi Gymunedol

4.9 Seminar Economi ac Adfywio
Bydd yr aelodau yn ymwybodol trwy dderbyn gwahoddiad fod seminar o Bwyllgor Craffu Datblygu wedi ei gynnal ar y 26 o Chwefror o dan y teitl "Gwynedd Ffyniannus". Cafwyd diweddariadau ar y Cynllun Gofodol a Strategaeth Datblygu'r Gogledd Orllewin cyn cael cyfle i drafod Prosiectau Blaenoriaeth Strategol Gwynedd 2008 - 2013, sydd wedi ei nodi ar ffurf tabl yn Atodiad 1. Mae'r rhestr yma yn sail i ddatblygiadau pellach ac yn gosod blaenoriaethau strategol.

4.10 Cafwyd cynrychiolaeth dda o'r Bartneriaeth Economaidd yn y digwyddiad yn ychwanegol i hyn cafwyd cyfle i drafod y prosiectau mewn sesiwn briffio arbennig i Gydlynwyr Sector a chynrychiolydd arall o'r bartneriaeth ar yr 20fed o Chwefror.

4.11 Mae'r seminar a'r holl drafodaethau blaenorol wedi gosod llwybr a chyd-estyn strategol i ddatblygu'r cynlluniau. Bydd yr Ysgrifenyddiaeth yn gweithio i sicrhau fod y Bartneriaeth yn cael eu diweddaru o unrhyw ddatblygiadau.

4.12 Arian Cyfatebol

Cyhoeddwyd fod Cronfa Arian Gyfatebol ar gael ar gyfer y rhaglen trwy Adran Gyllid LICC, mae'r gronfa yn cynnwys £105m dros y tair blynedd nesaf a £350m dros gyfnod y rhaglen. Mae matrics wedi ei gyhoeddi sy'n adnabod y blaenoriaethau ar gyfer y gronfa.

4.13 Mae cryn bryder wedi cael ei leisio gan nifer ers y datganiad yma, tynnir sylw aelodau'r bartneriaeth fod y gronfa yn sylweddol is na'r hyn sydd ei angen fel arian cyfatebol dros gyfnod y rhaglen (£1,093m) a bod aneglurder ynglŷn â'r broses ymgeisio. Bydd cryn bwysau ar y gronfa gan gofio fod cyllidebau'r Awdurdodau Lleol yn eithriadol o dynn.

5. Cynllun Datblygu Gwledig Cymru

5.1 Mae Aelodau yn ymwybodol y cyflwynwyd Cynllun Busnes a Phrosiectau Arfaethedig Gwynedd ar gyfer y Cynllun Datblygu Gwledig hyd at 2010 yn Nhachwedd, 2007. Bu rhai datblygiadau yng nghyswllt y Cynllun Datblygu Gwledig yn y cyfnod ers cyfarfod olaf y Grŵp Llywio:

- Cymeradwywyd Cynllun Datblygu Gwledig Cymru 2007-2013 gan Bwyllgor Datblygu Gwledig Gwledig y Comisiwn Ewropeaidd ar y 20 Chwefror 2008

- Ar ddiwedd Chwefror, cyhoeddwyd llithriad yn amserlen gweithredu'r Cynllun Datblygu Gwledig gan Llywodraeth Cynulliad Cymru. O ganlyniad ni fydd cynlluniau Echel 3 ac Echel 4 yn cychwyn tan 01 Mehefin 2008.

- Cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru eu bod yn rhannu un o fesurau Echel 3 (312) y rhaglen yn ddau gan wahanu cefnogaeth i deuluoedd fferm oddi wrth gefnogaeth i'r economi wledig yn ehangach. O ganlyniad roedd yn angenrheidiol rhannu cynllun Gwynedd ar gyfer y mesur - y Gronfa Galluogi Menter Gwledig - yn ddau gais unigol, er mwyn darparu'r gefnogaeth a ddymunwyd.

- Ar 18 Mawrth derbyniwyd y llythyrau ymholiad gan Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer dau o chwe chynllun Gwynedd gyda chais am ymateb erbyn 03 Ebrill 2008. Rydym yn parhau i aros am lythyrau ynglŷn â'r cynlluniau eraill.

6. Argymhelliad

6.1 Aelodau'r Bartneriaeth i dderbyn cynnwys yr adroddiad.

Rhestr Prosiectau Cydgyfeiriant Is-Ranbarthol a Strategol Gwynedd

Cynllun	Manylion	Partneriaeth	Corff Arweiniol
Llwyddo'n Lleol **Nia Swann-Bowden** **(01286) 679 774**	Cynllun i ddatblygu sgiliau a hyder pobl ifanc, wrth amlygu'r cyfleoedd cyflogaeth a hunangyflogaeth sydd yn bodoli iddynt o fewn eu cymunedau. Mae hyn yn digwydd trwy gyfres o weithgareddau sydd wedi'u seilio ar fentergarwch, gan gynnwys Cynllun Entrepreneuriaeth Ifanc o fewn rhai ysgolion uwchradd, Sesiynau Sbarduno Syniadau am Fentrau yn y gymuned a bwrsariaeth i wireddu syniadau am fentrau. Bydd hefyd yn cynnwys digwyddiadau i ddathlu llwyddiant pobl ifanc sydd wedi mentro i'r byd busnes yn lleol. Bydd y rhaglen yn sbarduno meddwl creadigol, gwella hyder ymysg pobl ifanc a hyrwyddo diddordeb mewn gwaith a datblygu sgiliau ar gyfer cyflogaeth. Bwriedir ehangu'r gwaith i Fôn, Conwy a Dinbych, gan ganolbwyntio ar sectorau twf penodol mewn pob ardal.	Cyngor Gwynedd Cyngor Môn Cyngor Conwy Cyngor Dinbych Llywodraeth y Cynulliad	Cyngor Gwynedd
Canolfan Sgiliau a Mentergarwch **Sian Lloyd Roberts** **(01286) 679 729**	Cynllun i sefydlu Canolfan Sgiliau Galwedigaethol ar gyfer ardal Dwyfor a Meirionnydd. Mae'r cynllun yn cael ei ddatblygu gydag ysgolion uwchradd yr ardal a Choleg Meirion Dwyfor er mwy cynnig ystod eang o gyfleoedd i ddatblygu sgiliau galwedigaethol a hyfforddiant menter i ymateb i anghenion cyflogwyr a dysgwyr i'r dyfodol. Mae'r cynllun yn cynnwys adeiladu canolfan newydd pwrpasol yn ardal Penrhyndeudraeth fyddai'n: • Darparu cyfleoedd addysgol gwahanol ac ychwanegol ar gyfer rhai 14-16 oed drwy ddatblygu cwricwlwm galwedigaethol sy'n briodol ar gyfer posibiliadau sgiliau'r unigolyn a hefyd anghenion sgiliau'r economi a'r farchnad lafur. • Darparu map ffordd glir o gyfleoedd a dewisiadau gyrfa ar gyfer pobl ifanc; • Codi dyheadau pobl ifanc ym Meirionnydd/Dwyfor i gyflawni eu potensial mewn addysg a chyflogaeth neu hunan gyflogaeth; • Sicrhau llwybrau cynnydd clir i addysg bellach ac uwch neu gyflogaeth; • Ymrwymo cyflogwyr i'r deilliant dysgu a chynyddu dysgu gwaith-berthynol. Mae'r ffocws ar ddatblygu cyfres o gyrsiau galwedigaethol o ddiddordeb i bobl ifanc a chyflogwyr sy'n ymateb i'r prinder sgiliau a adnabuwyd yn economi Gwynedd. Byddai'r cynllun yn pwysleisio ethos dysgu gydol oes a gweithio hefyd gydag unigolion ôl 16 oed.	Cyngor Gwynedd Cyngor Môn Llywodraeth y Cynulliad	Cyngor Gwynedd

Atodiad 1

	Byddai'r Ganolfan hefyd yn cynnwys unedau deori bychan, a chanolfan fenter i Wynedd. Y bwriad yw sefydlu unedau ar gyfer pobl ifanc fyddai'n cael eu hysbrydoli i ddechrau busnes mewn sectorau penodol. Bydd y cynllun yn rhan o gais ehangach i ardal Gwynedd a Môn a rhagwelir y byddai'n costio oddeutu £3.5m. Prif allbynnau'r cynllun fyddai nifer pobl ifanc wedi eu hyfforddi a nifer busnesau bach wedi eu sefydlu.		
Datblygu'r Sector Awyr Agored **Llyr B Jones** **(01286) 679 219**	Prosiect i hyrwyddo datblygiad y sector Awyr Agored yn y Gogledd Orllewin gan ganolbwyntio ar y thema 'Mynyddoedd a Môr'. Bydd y cynllun yn cynnwys pecyn o brosiectau i gefnogi datblygiad gweithgareddau awyr agored, i ddatblygu sgiliau lleol yn y maes, i gyflwyno profiadau newydd mewn gweithgareddau awyr agored i blant a phobl ifanc yr ardal, gan weithio yn arbennig gydag ysgolion Gwynedd, cefnogi datblygiad rhwydwaith o fusnesau lleol yn y sector a chreu cyfleon menter newydd a chyflogaeth yn yr ardal. Bydd y cynllun yn edrych yn benodol ar gefnogi mentrau awyr agored newydd yn y dyffrynnoedd llechi yn cynnwys Menter y Moelwyn ym Mlaenau Ffestiniog a Glyn Rhonwy yn Llanberis . Bydd y cynllun hwn yn ychwanegu gwerth i gynllun Partneriaeth Gweithgareddau Dŵr Gogledd Cymru sy'n ymgeisio am gyllid trwy raglen INTERREG i ddatblygu chwaraeon dŵr yn yr ardal. Bydd trafodaethau yn parhau i ystyried sut fyddai'r cais yn cael ei gyflwyno fel rhan o raglen ranbarthol ehangach gyda Croeso Cymru a'r Cynulliad. Bydd allbynnau'r cynllun yma yn cynnwys nifer o swyddi newydd wedi eu creu, mentrau newydd wedi eu sefydlu, isadeiledd ar gyfer busnes wedi ei ddatblygu, nifer wedi eu hyfforddi.	I'w gadarnhau	Cyngor Gwynedd
Academi Hwylio Gogledd Cymru	Nod y cynllun yw datblygu Academi Hwylio Genedlaethol Cymru a Chanolfan ddigwyddiadau ym Mhwllheli. Bydd yn adeiladu ar fuddsoddiadau blaenorol, llwyddiannau presennol i ddenu digwyddiadau cenedlaethol a rhyngwladol ynghyd a lleoliad naturiol a dyfroedd hwylio arbennig sydd i'w canfod ym Mae Tremadog. Mae	Cyngor Gwynedd Clwb Hwylio Pwllheli Coleg Meirion	Cyngor Gwynedd

Esyllt Rhys Jones **(01286) 679 513**	agweddau o'r cynllun yn cynnwys : • Adeilad newydd pwrpasol yn ymgorffori cyfleusterau megis, ystafelloedd newid, ystafelloedd cystadlaethau, gweithdai, swyddfeydd, gofod mesur ac ystafelloedd darlithio amlbwrpas ac ati. • Angorfeydd a chyfleusterau cysylltiedig i'r gogledd o'r Hafan ar gyfer darparu offer penodol ar gyfer digwyddiadau, cystadlaethau, hyfforddiant a chychod ymwelwyr. Bydd y cynllun yn cynnig cyfleoedd eang a gwahanol gan gynnwys denu a chynnal digwyddiadau / cystadlaethau; denu timau rhanbarthol / cenedlaethol i ymarfer yn yr ardal; adnoddau hyfforddiant; cyfleoedd gweithgareddau dwr i'r gymuned (a phlant a phobl ifanc yn arbennig) ac ati. Bydd y cyfleusterau yn arddangos hunaniaeth arbennig drwy hyrwyddo'r iaith a diwylliant Cymraeg ac yn codi proffil yr ardal. Drwy gyfranogiad ar y cyd, bydd y cyfleuster yn gynaliadwy ac yn creu budd economaidd tymor hir, a bydd ei swyddogaeth amlbwrpas yn cynnig cyfleoedd newydd i'r gymuned leol. Bydd allbynnau'r cynllun yn cynnwys nifer swyddi newydd wedi eu creu, isadeiledd ar gyfer busnes wedi ei sefydlu, nifer wedi eu hyfforddi.	Dwyfor Chwaraeon Dŵr Gogledd Cymru; Plas Menai Cymdeithas Hwylio Cymru Llywodraeth Cynulliad Cymru	
Cynllun Cylchoedd Dehongli **Aled Prys Davies** **(01286) 679 397**	Sefydlu Gwynedd fel Porth Diwylliannol i'r Gogledd Orllewin drwy ddatblygu canolfan i hyrwyddo rhwydwaith o gylchoedd dehongli ar draws y Sir. Bwriad y cynllun yw hyrwyddo cydweithio rhwng gwahanol atyniadau i ymwelwyr, gan roi sylw arbennig i themâu fyddai'n adlewyrchu cryfderau ardal Gwynedd. Rhagwelir y bydd cylchoedd diwylliannol, celfyddydol, amgylcheddol a threftadaeth ar draws Gwynedd. Mae nifer o sefydliadau eisoes yn gweithio gyda'i gilydd, ond mae cyfle yma i gryfhau'r berthynas, rhannu adnoddau ac arbenigedd. Mae gwaith wedi cychwyn yn barod i ystyried cyfleon cydweithio rhwng nifer o atyniadau treftadaeth yng Nghaernarfon gyda'r bwriad o rannu adnoddau gyda'r Ganolfan Groeso. Bwriad y cynllun yma yw adeiladu ar y gwaith hwn ac ychwanegu at yr adnodd i greu canolfan gyfoes ac integredig. Mae oddeutu 200 mil o ymwelwyr yn dod i Gaernarfon yn flynyddol - mae cyfle i dargedu'r gynulleidfa yma a chyfeirio ymwelwyr i atyniadau o ansawdd ar draws y sir. Mae cyfleon i gydweithio gyda siroedd ar draws y gogledd orllewin a Chyngor Môn yn arbennig i ymestyn y cynllun ymhellach. Allbynnau yn cynnwys isadeiledd ar gyfer busnes wedi ei ddatblygu, nifer swyddi newydd	Cyngor Gwynedd Llywodraeth y Cynulliad Atyniadau i'w cadarnhau	Cyngor Gwynedd

Atodiad 1

	wedi eu creu, % trosiant busnesau wedi cynyddu.		
Twf y Sector Eigioneg	Mae'r sector gwyddoniaeth amgylcheddol wedi ei adnabod fel un o sectorau twf ar gyfer ardal Gogledd Orllewin Cymru ac mae'r diwydiant Eigioneg yn rhan bwysig iawn o'r sector honno. Mae'r Cyngor yn cefnogi 2 gynllun fyddai yn sbarduno twf clwstwr o fusnesau o fewn y sector yma ac yn arwain at gyflogaeth newydd o ansawdd. Mae'r Cynllun cyntaf, SEACAMS 'Sustainable Development of Catchments and Coastal Zones' yn gynllun i gryfhau'r sector trwy ddatblygu ymchwil a pholisi fyddai'n adnodd i gefnogi busnesau i sefydlu a datblygu yn y rhanbarth. Rhagwelir bydd cais gwerth tua £28m yn cael ei gyflwyno ar y cyd rhwng prifysgolion Cymru, fyddai'n cynnwys sefydlu canolfan newydd ym Mhorthaethwy fyddai'n arwain at greu 25 o swyddi newydd uniongyrchol yn yr ardal. Bydd angen darpariaeth tir gyda mynediad i ddŵr ar gyfer busnesau fyddai'n clystyru o amgylch yr adnodd yma ac mae'r Cyngor mewn trafodaethau gyda'r Brifysgol a pherchnogion safle Ferrodo i ystyried cyfleon datblygu. Mae'r ail gais yn cael ei ddatblygu gan rwydwaith o fusnesau bach o fewn y sector i hyrwyddo datblygiad pellach y rhwydwaith o wyddonwyr amgylcheddol. Mae'r Grwp 'Bridge Marine' wedi ei gefnogi gan Gyngor Gwynedd ers ei sefydlu yn 2004 ac yn ystod y cyfnod hwn mae'r clwstwr wedi tyfu o 29 i 152 SME. Mae'n fwriad ymestyn y rhwydwaith ar draws Cymru a hyrwyddo a chreu cyfleon cyflogaeth o fewn y sectorau amgylcheddol. Bydd y cynllun yn creu 20 o swyddi newydd yn ardal Gwynedd (155 ar draws Cymru) ac yn arwain at greu 20 o fusnesau bach newydd.	Prifysgol Bangor Prifysgol Aberystwyth Prifysgol Abertawe Prifysgol Caerdydd Llywodraeth y Cynulliad Sector Breifat	Prifysgol Bangor
Canolfan Ragoriaeth Gwyddoniaeth Amgylcheddol	Mae Prifysgol Aberystwyth yn arwain ar ddatblygiad prosiect Ymchwil a Datblygu mewn defnyddiau tir/cnydau newydd ac effaith newid hinsawdd ar amaeth, gan gyfeirio yn arbennig at gnydau tanwydd. Mae'r cynllun yn datblygu yng nghyd-estyn Strategaeth Biomas Cymru ac mae gweithgaredd IGER yn ganolog i ddatblygiad y cynllun. Gall y cynllun yma sbarduno cyfleon cyflogaeth newydd yn ardal de Gwynedd yn benodol ac mae cyfleon i ychwanegu gwerth i'r clwstwr o fusnesau arloesol mewn ynni adnewyddol yn ardal Dyffryn Dyfi. Mae cyfleon yma i adeiladu ar waith Cynllun Menterra oedd yn gynllun Amcan 1 ddaeth i	I'w gadarnhau	Prifysgol Aberystwyth

	ben yng Ngwynedd yn fis Medi 2007.		
Tir ac Eiddo Cyflogaeth **Llyr B Jones** **(01286) 679 219**	Bydd y cynllun hwn yn datblygu isadeiledd ar gyfer cyflogaeth ar draws Gwynedd. Mae prinder unedau parod a thir cyflogaeth wedi ei wasanaethu ar draws Gwynedd. Mae rhestr aros o fusnesau ar hyn o bryd a'r bwriad ydi paratoi safleoedd i'w gweithredu mewn partneriaeth gyda'r sector breifat. Mae'r safleoedd sydd wedi eu hadnabod yn cynnwys : • Pwllheli/Ffôr/Rhos-fawr • Cibyn • Porthmadog/Penrhyndeudraeth • Tanygrisiau • Dolgellau • Bala • Tywyn Mae'r cynllun hwn yn cael ei baratoi ar y cyd â siroedd eraill yn y gogledd orllewin a chanol Cymru ond oherwydd costau mae'n debygol y bydd raid blaenoriaethu ymhellach y safleoedd i'w cynnwys yn y cais. Mae ystyriaeth hefyd yn cael ei roi i gyfleon i ymestyn gweithgaredd cwmnïau megis Adwy Cyf. ar draws y gogledd orllewin oherwydd y llwyddiant mae'r cwmni cymunedol yma wedi ei gael yn adfer a gosod adeiladau segur yn y dyffrynnoedd llechi.	Cyngor Gwynedd Cyngor Môn Cyngor Conwy Cyngor Dinbych Llywodraeth y Cynulliad Sector Breifat	Llywodraeth y Cynulliad (Adran yr Economi a Thrafnidiaeth)
Pecyn Datblygu Busnes **Colin Morris** **(01286) 679 677**	Mae'r cynllun yma yn sefydlu pecyn grantiau a chefnogaeth ariannol i SME's a busnesau newydd yn cynnwys, ond ddim wedi ei gyfyngu, i'r sectorau twf. Rhagwelir bydd allbynnau'r cynllun yn cynnwys trosiant busnes uwch, cynnydd mewn gweithgarwch economaidd a chyflogaeth, busnesau yn mabwysiadu strategaethau cydraddoldeb ac amrywiaeth yn ogystal â dod a gwasanaethau a chynnyrch newydd i'r farchnad. Bydd hyn yn cynyddu Gwerth Gros Atodol ac yn dod a ffyniant i gymunedau lleol. Bydd y cynllun yma yn gweithio wrth ochr cynllun Cronfa Buddsoddi Unigol sy'n cael ei baratoi fel cais gan y Cynulliad trwy weithio ar lenwi bylchau yn eu darpariaeth hwy. Bydd hyn yn cynnwys ystyried ceisiadau am gyllid o dan £5,000 a chefnogi busnesau sydd gyda marchnad leol yn unig.	Cyngor Gwynedd Cyngor Môn Cyngor Conwy Cyngor Dinbych Llywodraeth y Cynulliad Sector Breifat	Cyngor Môn

	Rhagwelir bydd hyd at 1,500 o swyddi yn cael eu creu, 1,500 o SME's presennol yn cael eu cefnogi ynghyd a 800 o SME's newydd yn cael eu creu ar draws y Gogledd Orllewin.		
Cynllun Gwastraff **Peter Evans** **(01286) 679 404**	Bydd y cynllun yma yn cefnogi mentrau i leihau gwastraff, hyrwyddo ailgylchu a thrin gwastraff ar lefel isranbarthol. Mae dau gynllun dan ystyriaeth, Cynllun enfawr gyda llosgydd yn ardal Fflint a Chynllun graddfa lai rhwng Gwynedd, Môn a Chonwy. Mae'r cynllun cyntaf yn cynnig cyfleon amlwg a gan fod tir wedi ei adnabod ar gyfer datblygiad o'r fath yn ardal y Fflint. Mae'n debygol byddai'n rhaid i'r gwastraff gael eu gludo i'r safle os am unrhyw siawns o gwblhau'r cynllun o fewn amserlen y rhaglen. Gall y cynllun yma gostio hyd at £140m i'w gwblhau. Mae'r ail gynllun fodd bynnag yn datblygu rhwydwaith o safleoedd ailgylchu a thrin gwastraff yn y Gogledd Orllewin fyddai'n galluogi Cyngor Gwynedd Môn a Chonwy i wella eu perfformiad ailgylchu a chompostio yn sylweddol. Rhagwelir bydd datblygu'r rhwydwaith yn sicrhau bod y tair sir yn gallu cydymffurfio gyda'u dogn ar gyfer tirlenwi gwastraff hyd at 2020. Mae nifer o allbynnau i'r cynllun hwn yn cynnwys cynyddu graddfeydd ailgylchu, swyddi newydd leihau tipio anghyfreithlon a chynyddu ymwybyddiaeth o ailgylchu trwy rwydwaith o safleoedd cymunedol bychan. Byddai'r cynllun yma yn cyfrannu at amcanion o fewn Fframwaith Strategol - 'Effeithiolrwydd Deunyddiau' sy'n cyfeirio at leihau'r gwastraff i safleoedd tirlenwi, yn ogystal â llenwi'r bylchau yn y ddarpariaeth fel sydd wedi ei nodi.	Cyngor Gwynedd Cyngor Môn Cyngor Conwy Cyngor Dinbych Llywodraeth y Cynulliad	Cyngor Dinbych/ Cyngor Gwynedd
Pont Briwet, Penrhyndeudraeth **Esyllt Rhys Jones** **(01286) 679 513**	Cynllun i ddatblygu ac uwchraddio isadeiledd strategol arfordir Bae Ceredigion. Mae angen uwchraddio Bont Briwet ar draws yr Afon Dwyryd - heb fuddsoddiad sylweddol yn yr isadeiledd yma bydd raid cau'r ffordd gan gyfeirio trafnidiaeth drwy Faentwrog a cholli'r cyswllt rheilffordd lein y Cambrian i Borthmadog a Phwllheli. Heb y cyswllt hwn byddai amser teithio yn cynyddu'n sylweddol rhwng cymunedau arfordir Meirionnydd a'r canolfannau gwasanaeth a chyflogaeth yn ardal Dwyfor ac Arfon. Bydd y cynllun yn codi pont newydd ar draws yr Afon Dwyryd fyddai'n cynnwys trac rheilffordd newydd i lein y Cambrian, ffordd gerbydol, llwybr cerdded a beicio yn union	Cyngor Gwynedd Network Rail Llywodraeth y Cynulliad	Cyngor Gwynedd

	wrth ymyl y strwythur presennol. Bydd y bont bresennol yn cael ei dymchwel wedi'r strwythur newydd gael ei godi. Bydd y cynllun yn gwella mynediad i wasanaethau i gymunedau ymylol ; yn cynyddu cyfleon cyflogaeth i drigolion yr ardal yn y canolfannau twf; yn gwella amodau i fusnesau sefydlu a buddsoddi yn yr ardal (yn arbennig yn sgil datblygu safle Llanbedr); yn gyswllt twristiaeth bwysig i'r rhanbarth yn enwedig i gynnal gwasanaeth rheilffordd y Cambrian. Mae Network Rail eisoes wedi ymrwymo hyd at £5m i'r cynllun a rhagwelir y bydd cyfanswm cost y cynllun oddeutu £12m		
Rheilffordd Dyffryn Conwy a Phecyn Adfywio Blaenau Ffestiniog **Dylan Griffiths (01286) 679 611**	Trwy'r cynllun yma bydd rheilffordd Dyffryn Conwy yn cael ei ddatblygu a'i uwchraddio er mwyn galluogi i gynllun gwaredu gwastraff llechi Blaenau Ffestiniog gael ei wireddu ynghyd â galluogi trennau 'freight' eraill ddefnyddio'r trac i gludo nwyddau yn fwy effeithiol i'r farchnad, megis gwastraff, coed, nwyddau adeiladu. Mae'r cynllun yn rhan o strategaeth ehangach i gysylltu ardal Blaenau Ffestiniog a De Meirionnydd gydag ardaloedd twf y Cynllun Gofodol ar yr arfordir a chreu cyfleon cyflogaeth newydd i'r ardal. Mae rhaglen adfywio strategol ar gyfer ardal Blaenau Ffestiniog wedi ei datblygu yn cynnwys pecyn o brosiectau i dargedu amddifadedd, sefydlu mentrau newydd i greu cyfleon cyflogaeth, yn cynnwys cynllun awyr agored Menter y Moelwyn, cynllun Mentrau'r Ifanc yn Neuadd y Farchnad, eiddo cyflogaeth ar gyfer y sector breifat, a chynllun uwchraddio i dargedu'r ymwelwyr sydd yn ymweld â'r dref yn barod yn flynyddol ar y rheilffordd. Pe byddai'r rhaglen gyfan yn cael ei gweithredu mae cyfle i greu hyd at 120 o swyddi newydd yn yr ardal.	Cyngor Gwynedd Blaenau Ymlaen Llywodraeth y Cynulliad	I'w gadarnhau
Adfywio Trefol **Llyr B Jones (01286) 679 219**	Yn dilyn penderfyniad Pwyllgor Monitro'r Rhaglen i flaenoriaethu 80% o'r cyllid o fewn y Flaenoriaeth a'r Them yma i 44 o aneddiadau ar draws Cymru, mae'r cyllid sydd ar gael yma wedi ei gyfyngu i raddau helaeth i drefi Rhyl, Bae Colwyn, Caergybi, Bangor a Chaernarfon yng Ngogledd Cymru. Mae'r Cynulliad yn arwain ar gais fyddai'n cynnwys pecyn o welliannu yn targedu'r canolfannau hyn fyddai yn adeiladu ar gynllun y maes yng Nghaernarfon ac ar y buddsoddiad preifat yn ardal Bangor. Bydd trafodaethau yn parhau ar sut orau i ddatblygu cais ar gyfer ardaloedd sydd yn	Cyngor Gwynedd Cyngor Môn Cyngor Conwy Cyngor Dinbych Llywodraeth y Cynulliad	Llywodraeth cynulliad (Adran yr Economi a Thrafnidiaeth)

	gymwys ar gyfer yr 20% o'r gyllideb sy'n weddill.		
Adfywio Cymunedol **Catrin Thomas** **(01286) 679 913**	Sefydlu Cronfa Allweddol i ddatblygu cynhwysedd y trydydd sector i ddatblygu menter ar draws y gogledd orllewin. Bydd y prosiect yn: • Sefydlu mentrau cymdeithasol newydd yn yr ardal. • Datblygu a hyrwyddo twf mentrau cymdeithasol presennol. • Adfer ac adnewyddu gwasanaethau i'r economi leol trwy ddatblygu mentrau. • Rhoi bywyd newydd i asedau trwy fenter a darpariaeth gwasanaethau. Bydd y cynllun yma yn rhoi blaenoriaeth i ardaloedd o angen. Mae Menter Môn yn arwain ar ran partneriaeth yn y gogledd orllewin, ond mae manylion trefniadaeth rheoli a gweithredu eto i'w cadarnhau.	Cyngor Gwynedd Cyngor Môn Cyngor Conwy Cyngor Dinbych Llywodraeth y Cynulliad WLGA a'r Cynghorau Gwirfoddol Lleol	Menter Môn
Pecyn Datblygu Sgiliau **Sian Lloyd Roberts** **(01286) 679 729**	Llywodraeth y Cynulliad yn arwain ar ddatblygu ceisiadau rhanbarthol i ddatblygu sgiliau. Rhain yn cynnwys cynlluniau i hyrwyddo prentisiaeth fodern, sgiliau paratoi at waith, hyrwyddo sgiliau galwedigaethol, llwybrau dysgu a datblygu sgiliau'r gweithlu. Pecyn prosiectau rhanbarthol ddim wedi ei gadarnhau eto, ond partneriaeth ar draws y gogledd orllewin, yn cynnwys rhwydweithiau 14-19, wedi adnabod blaenoriaethau i'r ardal, yn cynnwys: • Canolfannau Cylchdroi • Canolfannau Rhagoriaeth E-ddysgu • Llwybrau Dysgu Gwyddonol • Ysgolion Cymunedol Bydd trafodaethau yn parhau gyda'r Cynulliad i adnabod cyfleon i weithredu'r elfennau uchod o fewn cynlluniau rhanbarthol.	Cyngor Gwynedd Cyngor Môn Cyngor Conwy Cyngor Dinbych Rhwydweithiau 14-19 Colegau Menai, Llandrillo, Harlech Prifysgol Bangor Llywodraeth y Cynulliad	Cyngor Gwynedd
Pecyn Mynediad i Waith **Catrin Thomas** **(01286) 679 913**	Mae'r Cynulliad yn arwain ar becyn o brosiectau i ymateb i'r nifer o unigolion economaidd anweithgar yng Ngogledd Orllewin Cymru. Dyma becyn traws-asiantaeth o weithgareddau i leihau / oresgyn y rhwystrau sy'n atal unigolion rhag cael mynediad i hyfforddiant neu waith gan adeiladu ar brofiad gweithredu cynlluniau megis Genesis a'r rhaglen ILM yn ystod y cyfnod Amcan 1. Bydd y pecyn yn cynnwys detholiad o gefnogaeth (e.e. cyrsiau cynyddu hyder, sgiliau sylfaenol, cymorth i baratoi ar gyfer	Cyngor Gwynedd Cyngor Môn Cyngor Conwy Cyngor Dinbych Llywodraeth y Cynulliad	Llywodraeth y Cynulliad (Adran Plant Addysg Dysgu Gydol Oes a Sgiliau)

	cyfweliad, help i sicrhau trwydded gyrru ayyb) ellid eu teilwra i amgylchiadau unigolion. Bydd y pecyn hefyd yn rhoi sylw i feithrin cysylltiadau gyda chyflogwyr a rheolwyr datblygiadau yn y sir gan baratoi unigolion i fanteisio ar y cyfleoedd sydd ar gael. Rhagwelir y bydd y pecyn yn cael ei weithredu ar y cyd rhwng Awdurdodau Lleol, Gyrfa Cymru, Llywodraeth y Cynulliad, yr Adran Gwaith a Phensiynau a sefydliadau yn y drydedd sector a'r sector hyfforddiant/addysg.		
Pecyn Twristiaeth **Sian Pennant Jones (01286) 679 963**	Datblygiad ystod o weithgareddau fydd yn anelu i ddatblygu gwerth y diwydiant twristiaeth a'i gyfraniad i'r economi leol. Bydd pwyslais arbennig ar ddatblygu'r fantais sydd i'w ennyn o rinweddau unigryw'r Gogledd Orllewin gan gynnwys ein hiaith a'n diwylliant, Eryri a'r ucheldiroedd, bywyd gwyllt, hanes a threftadaeth yr ardal a'n harfordir eithriadol. Yn ogystal â datblygu'r defnydd a'r dehongliad o'n hasedau bydd y cynllun yn pwysleisio'r angen i integreiddio'r diwydiant ymwelwyr i'r economi lleol yn ehangach gan sicrhau'r fantais fwyaf i drigolion lleol. Rhagdybir y bydd gweithgareddau yn cael eu cefnogi'n bennaf drwy law cynlluniau rhanbarthol sy'n cael eu paratoi gan y Cyngor Cefn Gwlad, CADW a Croeso Cymru.	Partneriaethau Twristiaeth Gogledd/Canolbarth Cymru Cyngor Gwynedd Cyngor Môn Cyngor Conwy Cyngor Dinbych Llywodraeth y Cynulliad Sector Breifat	Cyngor Môn
Amrywiol	Bwriedir adeiladu ar nifer o syniadau prosiectau gan nifer o wasanaethau o fewn y cyngor. Mae trafodaethau yn mynd rhagddi ar ddatblygu partneriaethau a chaledu'r syniadau yn cynnwys; • Cynlluniau amgylcheddol • Gwasanaethau Cyhoeddus Gwyrdd • Gwelliannau arfordirol • Cynlluniau Technoleg Gwybodaeth • Rheoli Llifogydd	I'w cadarnhau	I'w cadarnhau

Papur Cefndir maes strategol 'Sgiliau'

Trafodaeth strategol maes 'Sgiliau'

CYFARFOD:	Grŵp Llywio Partneriaeth Economaidd Gwynedd
DYDDIAD:	4ydd o Ebrill 2008
PWRPAS:	Gosod y cydestyn ar gyfer y cyflwyniadau a'r drafodaeth ddilynnol.
ARGYMHELLIAD:	Nodi cynnwys yr adroddiad
AWDUR:	Sioned E. Williams Pennaeth Gwasanaeth Economi ac Adfywio

1. Cyflwyniad

1.1 Bydd aelodau yn ymwybodol fod ail hanner o gyfarfod y grwp llywio wedi ei neilltuo i drafodaeth strategol ar y maes 'Sgiliau'. Pwrpas yr adroddiad hwn yw gosod y cydestyn ar gyfer y cyflwyniadau a'r drafodaeth ddilynnol.

2. Her a Phrif faterion yn ymwneud â Sgiliau yng Ngwynedd

2.1 Dangosodd ymchwil diweddar fod mwyfwy o arwyddion nad yw'r sgiliau mae cyflogwyr yn gofyn amdanynt a'r hyn mae pobl ifanc yn ei ddysgu yn yr ysgol a'r coleg yn cydweddu. Mae'n dyngedfennol bod anghenion sgiliau presennol yr economi a'r sgiliau at y dyfodol yn cael eu cwrdd, dengys ymchwil fod;

- Dros 1/3 o gyflogwyr Gwynedd yn wynebu problemau recriwtio.
- Mae 1/5 o gyflogwyr yn nodi bod bylchau o ran sgiliau yn effeithio ar sut mae eu busnes yn perfformio.
- Ceir cyfradd uchel o ddiffyg gweithgaredd economaidd o fewn yr ystod oedran 20-24.
- Y brif her mae'r Sir yn ei wynebu yw'r newid demograffig a'r effaith a gaiff. Mae poblogaeth sy'n heneiddio a lefelau uchel o ddiblogi yn amlwg yn effeithio ar ein sylfaen sgiliau yn lleol.
- Nid yw dysgwyr 14-19 oed yn cael dewis llawn o gyfleoedd dysgu ac mae hyn yn arwain at nifer mawr o bobl ifanc ac oedolion nad ydynt mewn addysg, gwaith nac yn derbyn hyfforddiant.
- Mae canfyddiad bod angen inni baratoi pobl ifanc ar gyfer y math o gyfleoedd sydd ar gael yn y farchnad lafur lleol trwy sefydlu'r math cywir o raglenni addysgol a hyfforddiant ar gyfer y sectorau hynny sy'n debygol o weld twf yn y dyfodol.
- Mae hefyd angen cael Strategaeth Sgiliau sy'n gosod y prif flaenoriaethau ar gyfer Datblygu Sgiliau yng Ngwynedd ac ar draws yr isranbarth.

3. Prif Brosiectau

3.1 Mewn ymateb i'n prif nodau ac amcanion, a hefyd yr anghenion a gafodd eu hamlygu gan lawer o adroddiadau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol, adnabwyd y prosiectau canlynol fel rhai a allai ymateb;

Lleol

- Canolfan Sgiliau Galwedigaethol Gwynedd 14-16
- Prosiect yn delio â NEETS ar gyfer pobl ifanc rhwng 14-19
- Prosiect Llwyddo'n Lleol - Yn hyrwyddo Mentergarwch ymhlith pobl ifanc a'r ystôl Fenter
- Model ar gyfer targedau'r economaidd anweithredol e.e. Model Manwerthu Doc Fictoria
- Adnabod a sefydlu strwythurau comisiynu
- Llwybrau Dysgu/i waith
- Sectorau Allweddol Twf

Cenedlaethol

- Skill Build
- Rhaglen Datblygu'r Gweithlu – targedu sectorau
- Genesis
- YALO
- Isadeiledd Strategol

4. Strwythur Lleol

4.1 Mae sawl grwp sy'n ymwneud â datblygu medrau yn lleol yn gweithredu yn y Gogledd Orllewin, tynnir sylw'r aelodau yn arbennig at y canlynol;

- Grŵp Strategaeth Gwynedd ac Ynys Môn (Comisiynwyr) - Addysg, Sgiliau a Hyfforddiant - Mae aelodau yn cynnwys Cyfarwyddwyr AALL, Gyrfa Cymru a DCELLS. Mae'r grŵp hwn yn trafod y prif faterion ar gyfer sgiliau, addysg a hyfforddiant yng Ngwynedd ac Ynys Môn yn cynnwys cynllun Braenaru Daearyddol Arfon a Môn.
- Grŵp Sgiliau Gwynedd ac Ynys Môn - Mae aelodau yn cynnwys Cyngor Gwynedd ac Ynys Môn; Colegau, Prifysgol, DCELLS, DE&T a chyflogwyr lleol. Ymhlith y materion a drafodir mae gwybodaeth ynghylch bylchau o ran sgiliau yn y farchnad lafur yn lleol a sut dylid delio â hynny.
- Gweithgor Gwella Sgiliau Cyngor Gwynedd - Grŵp craffu mewnol o aelodau aelodau etholedig. Mae'r grŵp hwn yn gyfrifol am graffu materion sgiliau a hyfforddiant sy'n berthnasol i Wynedd yn cynnwys braenaru daearyddol a Hyfforddiant Gwynedd.
- Rhwydwaith Dysgu 14-19 - Grŵp yn gyfrifol am yr holl faterion sy'n ymwneud â dysgu, addysg a sgiliau ar gyfer y grŵp oedran 14-19. Mae gan y rhwydwaith hwn hefyd lawer o is-grwpiau yn cynnwys fforwm cyflogwyr, fforwm e-ddysgu a fforymau NEETS.

5. Prif Strategaethau Perthnasol

5.1 Tynnir sylw'r aelodau at y prif strategaethau Cenedlaethol a Lleol, sy'n sail i'r cyflwyniadau, ceir amlinelliad byr yma;

Strategaethau Cenedlaethol

- **Adolygiad Webb: Addewid a Pherfformiad**
  Mae hwn yn adolygiad annibynnol o Fwriad a phwrpas Addysg Bellach yng Nghymru yng nghyd-destun y Wlad sy'n Dysgu: Gwireddu Gweledigaeth. Mae Webb wedi nodi saith prif nodwedd sy'n gyrru newid sy'n cynnwys:
    - Hawl Dysgwr
    - Dylanwad cyflogwr
    - Sgiliau
    - Ansawdd
    - Cyllid

  Cynhelir ymgynghoriad ar yr adolygiad hwn ar hyn o bryd a'r dyddiad cau ar gyfer derbyn sylwadau yw Mehefin 2008.

- **Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru: Strategaeth Sgiliau a Chyflogaeth**
  Mae'r ddogfen hon yn ymgynghori ar strategaeth sgiliau a chyflogaeth er mwyn codi lefelau sgiliau a chynyddu cyfradd gweithgarwch economaidd yng Nghymru. Bydd y Strategaeth yn disodli'r Cynllun Gweithredu Sgiliau a Chyflogaeth 2005 ac yn ymateb i Adolygiad Leitch o Fedrau yn y DU ac yn ymateb rhagarweiniol i'r adolygiad annibynnol ar fwriad a phwrpas addysg bellach (addewid a pherfformiad). Mae'r strategaeth yn rhoi'r pwyslais ar rôl cyflogwyr a datblygiad eu busnesau trwy ddelio â datblygu sgiliau.

  Gofynnir am ymatebion i'r ddogfen ymgynghorol erbyn 10fed Ebrill 2008.

- **Cynigion am Fesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2008**
  Mae'r ddogfen ymgynghorol hon yn cyflwyno fersiwn drafft o gynigion Llywodraeth Cynulliad Cymru am Fesur Cynulliad ar gyfer Dysgu a Sgiliau. Bydd Mesur arfaethedig Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2008 yn sail i bolisi Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer darpariaeth ar gyfer rhai14-19. Gofynnir am ymatebion i'r ddogfen ymgynghorol erbyn 29fed Ebrill 2008.

Strategaethau Lleol

- **Strategaeth Sgiliau Gwynedd ac Ynys Môn**
  Mae awdurdodau lleol Gwynedd & Ynys Môn ar ran Grŵp Addysg, Hyfforddiant a Sgiliau Gwynedd & Ynys Môn wedi adnabod bod angen paratoi Strategaeth Sgiliau a fyddai'n llywio ac yn llywio'n strategol waith llawer o grwpiau'n lleol megis y Rhwydwaith Dysgu 14-19, a bydd yn adnabod prosiectau ac ymyriadau allweddol y dylid ymgymryd â hwy yn lleol, a nodi sectorau twf allweddol.

5.2 Bydd y tarfodaethau yn y grwpiau yn rhan o'r broses i'w baratoi ac yn rhoi cyfle i aelodau'r bartneriaeth i gael mewnbwn i'r broses hon.

6. Argymhelliad

6.1 I'w ddefnyddio fel cydestyn ar gyfer trafodaethau strategol y maes 'Sgiliau'